IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MERCHER, 18 HYDREF 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Driscoll a/ac Shimmin |

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - MO MARKET

Yn bresennol:

Awdurdod Cyfrifol: Y Cwnstabl Jason Jones, Heddlu De Cymru

Ni fynychodd yr ymgeisydd.

<u>Y Cais</u>

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Mo Market Cardiff Ltd mewn perthynas â Mo Market, 326 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna, Caerdydd.

Mae'r ymgeiswyr wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Disgrifiad o natur yr amrywiad (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

> "Rwyf am ddileu amod 17 o amodau atodiad 2 sy'n gyson â'r atodlen weithredu sy'n nodi na fydd unrhyw ganiau unigol o gwrw, seidr neu lager yn cael eu gwerthu. Ni fydd yr amrywiad yn effeithio'n negyddol ar y gweithgareddau trwyddedadwy gan y byddaf yn dal i gymryd gofal i ddilyn y polisi her 25, byddaf yn gofyn am ID pan na fyddaf yn siŵr a byddaf yn gwrthod y gwerthiant lle credaf fod y cwsmer eisoes yn feddw neu'n arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddaf yn parhau i weithredu teledu cylch cyfyng.
>
> Ardal breswyl yw'r ardal, mae'n ardal dda a siop groser yw'r siop ac felly mae'n addas i deuluoedd. Nid oes gennym unrhyw broblemau gyda chwsmeriaid anghwrtais neu feddw ac mae'n ardal breswyl dawel ac mae'n ardal dda iawn felly rwy'n credu na fydd dileu'r amod hwn yn achosi unrhyw niwsans na mater diogelwch y cyhoedd. Nid yw pobl yn yfed ar y strydoedd yn yr ardal hon. Oedolion sy'n mynd â'u diodydd adref yw'r bobl sy'n prynu alcohol. Maent yn dod i'm siop i gan eu bod yn byw pellter cerdded ohoni felly mae'n gyfleus.

(2) Mae'r cais yn gofyn am y canlynol:

Dileu amod 17 isod:

Ni werthir unrhyw ganiau unigol o gwrw, seidr na lager.

Cafodd map safle yn dangos yr eiddo ei gynnwys yn yr adroddiad.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Gwnaeth y Cwnstabl Jason Jones o Heddlu De Cymru siarad gerbron yr Is-bwyllgor. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu'r amrywiad i'r drwydded safle ar sail yr amcanion trwyddedu Atal Niwsans Cyhoeddus ac Atal Trosedd ac Anrhefn.

Ar hyn o bryd roedd Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yn profi ymddygiad gwrthgymdeithasol gan 'yfwyr ar y stryd' problemus, fel cardota a meddwdod. Gwyddys bod unigolion yn cardota am ddigon o arian i brynu can sengl ac yna'n yfed yr alcohol ar y stryd. Roedd yr amod yr oedd yr ymgeisydd yn ceisio ei ddileu wedi ei dderbyn gan yr ymgeisydd yn dilyn cytundeb gyda Heddlu De Cymru ym mis Ionawr 2023. Roedd y Cwnstabl Jones o'r farn bod yr amod wedi bod yn effeithiol ers iddo gael ei weithredu ac y byddai dileu'r amod yn effeithio'n negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Rhoddodd y Cwnstabl Jones grynodeb o'r troseddau a adroddwyd yn yr ardal, gan gynnwys brwydr fawr rhwng pobl feddw, rheolwr siop yn cael ei fygwth gyda chyllell yn dilyn gwrthod gwerthu alcohol, a nifer o achosion o siopladrata, dwyn a niwsans cyhoeddus. Roedd Heddlu De Cymru wedi gweithredu Gorchymyn Gwasgaru yn yr ardal o ganlyniad i'r cynnydd mewn trosedd ac anhrefn.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw un o'r troseddau a adroddwyd yn ymwneud â'r safleoedd trwyddedig eraill yn yr ardal ac a oedd safleoedd eraill yn cael gwerthu eitemau sengl. Dywedodd y Cwnstabl Jones fod y problemau wedi digwydd yn ardal Heol Ddwyreiniol y Bont-faen ac roedd o'r farn y byddai eitemau sengl yn ganran fach iawn o werthiannau mewn siopau mwy.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y gwrthwynebiad gan Heddlu De Cymru yn ofalus a theimlai y byddai'r amrywiad arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais yn ôl ei rinweddau unigol ac ystyriodd holl bapurau'r pwyllgor, y canllawiau statudol a wnaed dan adran 182 Deddf Trwyddedu 2003, Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, sylwadau'r ymgeisydd a'r holl bartïon eraill.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y sylwadau gan Heddlu De Cymru yn ofalus, gan weithredu yn rhinwedd eu rôl fel awdurdod cyfrifol, a gwnaeth wrthwynebu'r cais wedi clywed y sylwadau llafar gan y Cwnstabl Jason Jones yn ystod y gwrandawiad.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor fod problem gyda throsedd ac anhrefn ac yfed ar y stryd o fewn yr ardal ac y byddai galluogi'r safle i werthu caniau sengl o gwrw, seidr neu lager yn tanseilio'r amcan trwyddedu trosedd ac anhrefn.

Nid oedd yr is-bwyllgor yn cytuno â sylw'r ymgeisydd mai oedolion sy'n mynd â'u diodydd adref yn unig yw'r bobl sy'n prynu alcohol.

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth yn ofalus, penderfynodd yr is-bwyllgor WRTHOD y cais.

3 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - KINGS ROAD YARD

Yn Bresennol

Ymgeiswyr: Keith Munro a Caroline Munro

Awdurdodau Cyfrifol: Y Cwnstabl Jason Jones, Heddlu De Cymru
Rhys Morgan, Trwyddedu Cyngor Caerdydd

Pobl Eraill â Diddordeb: Y Cynghorydd Caro Wild
Robert Chapman
Rhodri Hughes
Sue McGuire

<u>Y Cais</u>

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Caroline Christiane Jeanne Marie Munro a Camille Marie Josephine Munro mewn perthynas â Kings Road Yard, 183a Heol y Brenin, Caerdydd.

Mae'r ymgeiswyr wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno.
(ii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf ffilmiau (y tu mewn) a cherddoriaeth fyw (y tu mewn a'r tu allan).
(iii) Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (y tu mewn a'r tu allan).

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

Ar hyn o bryd mae gan Caroline Munro drwydded safle, cyfeirnod CCCP02050, ar gyfer Cwrt Kings Road Yard am nifer cyfyngedig o achlysuron y flwyddyn i fanwerthu alcohol mewn marchnadoedd ffermwyr, ond mae'r ymgeiswyr am ddatblygu'r busnes ac ehangu'r hyn a gynigir drwy gynyddu ôl troed yr ardal drwyddedig i gynnwys y teras llawr cyntaf bach (uchafswm capasiti - 10 yn eistedd neu 15 yn sefyll) ac unedau ar y llawr gwaelod, yn ogystal â'r cwrt presennol i allu cynnal digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys ychwanegu'r siop goffi The Wardrobe (A&B), Alex Gooch Pizzeria (1A) a Nomad Kitchen (7A), Red Doors Studio (5A), Neuadd Ddawns (3A) a chegin llawr gwaelod (2A1) a bydd pob un o'r rhain yn cael eu cynnwys yn y drwydded safle newydd hon.

Bydd y cwrt yn dal i gynnal marchnadoedd ffermwyr a marchnadoedd eraill ac yn gyffredinol bydd y safle yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y flwyddyn ar gyfer digwyddiadau fel nosweithiau coctels neu win, er enghraifft.

Nid yw'r cais hwn yn cynnwys unrhyw ardal sydd wedi'i thrwyddedu ar hyn o bryd dan y drwydded safle a weithredir gan Pipes Brewery.

(3) Oni bai y nodir fel arall, gall y safle fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

Dydd Llun i Ddydd Sul: 09:30 tan 22:30
Nos Galan: 10:00 tan 01:30

(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:

Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 tan 22:00
Nos Galan: 10:00 tan 01:00

(ii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf ffilmiau (y tu mewn):

Dydd Llun i Ddydd Sul: 10:00 tan 22:00
Nos Galan: 10:00 tan 01:00

(iii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw (y tu mewn):

Nos Galan: 23:00 tan 01:00

(iv) Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (y tu mewn a'r tu allan).

Nos Galan: 23:00 tan 01:00

Atodwyd map safle yn dangos y safle a chynllun y safle a gyflwynwyd gyda'r cais i'r adroddiad.

Rhoddodd Dan Cook, Rheolwr Trwyddedu, grynodeb o'r cais.

Sylwadau'r Ymgeiswyr

Gwnaeth Keith Munro siarad gerbron yr Is-bwyllgor. Roedd Mr Munro o'r farn bod trigolion lleol wedi camddeall bwriad y cais ac ymddiheurodd os oedd hyn wedi achosi gofid. Roedd mwyafrif y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd wedi tynnu sylw at yr oriau ychwanegol a'r diwrnodau ychwanegol yn ystod yr wythnos y gwnaed cais amdanynt. Fodd bynnag, nid gweithredu am 7 diwrnod yr wythnos oedd y bwriad. Byddai'r safle dim ond ar agor o ddydd Iau i ddydd Sul gydag oriau cyfyngedig ar gyfer gwerthu alcohol.

Dywedodd Mr Munro ei fod wedi gofyn am arweiniad gan Drwyddedu Cyngor Caerdydd ac wedi hynny cafodd gyngor i wneud cais am yr un oriau a diwrnodau gweithredu â Pipes Brewery. Roedd y cais hefyd yn caniatáu pwyntiau gwerthu alcohol hyblyg gan y byddai'r rhain dros dro ac yn ddibynnol ar y mathau o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y rhan o'r cais a geisiodd ganiatáu dangos ffilmiau wedi'i chynnwys ar gam ar y ffurflen gais ac y dylid ei dileu. Nid oedd yr ymgeiswyr yn bwriadu cynnal clwb sinema yn y safle mwyach.

Gan ymateb i bryderon ynghylch niwsans sŵn, dywedodd Mr Munro, yn ystod y 2 ddegawd ers i'r cwrt fod yn ei berchnogaeth, fod sŵn wedi gostwng. Roedd yr eiddo yn gwrt diwydiannol am dros 100 mlynedd ac roedd yn cynnwys gweithdai gwaith saer a garejys.

Dywedodd Mr Munro fod y safle yn cael ei arwain gan y gymuned a bod y cais yn ceisio gwella'r hyn sydd ar gael i'r gymuned. Roedd hi'n ofidus felly clywed yr hyn yr oedd trigolion wedi'i ddweud. Derbyniodd Mr Munro y gallai cyfathrebu â'r gymuned leol fod yn well a dywedodd fod y wefan wedi cael ei lansio'n ddiweddar a fyddai'n helpu yn hyn o beth.

Roedd Mr Munro o'r farn bod rhai o'r cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â digwyddiadau Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar y safle. Gweithredwyd y digwyddiadau hynny yn unol â'r amodau a ganiateir, ac ni chadarnhawyd y cwynion. Ar ben hynny, fel gweithredwyr cyfrifol cedwir at yr holl reoliadau.

<u>Sylwadau’r Awdurdod Cyfrifol</u>

Gwnaeth y Cwnstabl Jason Jones siarad gerbron yr Is-bwyllgor. Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau fod Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu rhoi’r drwydded ar sail yr amcanion trwyddedu Atal Niwsans Cyhoeddus ac Atal Trosedd ac Anrhefn. Roedd y safle'n cynnwys ychydig o ystafelloedd caeedig a chwrt canolog ac roedd mewn ardal breswyl boblog.

Roedd y gweithgareddau trwyddedadwy yn gyfyngedig ar hyn o bryd ond ceisiodd y cais gynyddu amlder a nifer y digwyddiadau i’w cynnal yn fawr. Felly, roedd risg i'r amcanion trwyddedu. Roedd gorgyffwrdd dwy drwydded safle ar y safle hefyd yn peri pryder.

Gan ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, dywedodd y Cwnstabl Jones nad oedd unrhyw achosion o droseddau a adroddwyd yn gysylltiedig â'r safle. Ond mae Heddlu De Cymru yn derbyn cwynion niwsans sŵn sy'n cael eu hatgyfeirio i Gyngor Caerdydd yn aml.

Gwnaeth Rhys Morgan siarad gerbron yr Is-bwyllgor ar ran Trwyddedu Cyngor Caerdydd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y drwydded bresennol wedi'i chyfyngu i ddydd Gwener a dydd Sadwrn gydag oriau cyfyngedig ac amodau ynghlwm i liniaru problemau posibl. Wrth adolygu'r atodlen weithredu, nodwyd nifer o faterion sy'n peri pryder gan Drwyddedu Cyngor Caerdydd. Er enghraifft, nid oedd yr amod ynghylch staff drws a gymeradwywyd gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch yn glir a mynegwyd amheuon o ran a fyddai'r amod yn weithredadwy neu'n orfodadwy yn

ymarferol, gan nad oedd yn hawdd defnyddio staff drws Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ar fyr rybudd.

Ar ben hynny, nid oedd yn glir beth fyddai'n digwydd i'r drwydded bresennol. Awgrymodd Rhys Morgan y dylid cynnwys amod a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r drwydded bresennol gael ei hildio pe bai trwydded newydd yn cael ei rhoi. Roedd nodiadau o fewn yr atodlen weithredu o ran rheoli adloniant wedi'i reoleiddio'n gwrthdaro ac nid oedd yn glir sut y byddai'r gweithredwyr yn goresgyn pryderon ynghylch niwsans cyhoeddus.

Gan ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rhys Morgan fod y cais yn ceisio cynyddu'n gyfannol yr oriau a ganiateir ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy a'i fod yn cynrychioli defnydd mwy o'r safle. Fodd bynnag, nid oedd mewn sefyllfa i ddweud y dylid gwrthod y cais am drwydded. Roedd angen taro cydbwysedd rhwng safleoedd yn gweithredu dan y drwydded bresennol gyda Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro ychwanegol neu fod â thrwydded arall gydag amodau gwell a oedd yn gallu lliniaru unrhyw effaith bosibl ar yr amcanion trwyddedu. Gwnaeth y sylwadau a gyflwynwyd gan Drwyddedu Cyngor Caerdydd ystyried pryderon lleol ac effaith yr amcanion trwyddedu.

<u>Sylwadau'r Bobl Eraill â Diddordeb</u>

Gwnaeth y Cynghorydd Wild siarad gerbron yr Is-bwyllgor fel Aelod Ward ar gyfer Ward Glan-yr-afon. Dywedodd y Cynghorydd Wild ei fod yn gyfarwydd â'r safle wedi mynychu digwyddiadau yn Kings Yard a Pipers Brewery. Fodd bynnag, roedd problem o ran gwrthdaro rhwng y gweithrediad a'r trigolion lleol. Roedd y safle yng nghanol ardal breswyl ar ddiwedd gerddi pobl.

Mynegwyd pryderon ynghylch lles trigolion lleol. Roedd niwsans sŵn o'r safle yn achosi problemau ar hyn o bryd a byddai'r rhain yn cael eu gwaethygu pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu. Roedd y Cynghorydd Wild hefyd o'r farn nad oedd partïon ar y safle yn cael eu rheoli a gwnaeth wrthwynebu'n gryf ganiatáu'r cais.

Siaradodd Mr Robert Chapman ar ran nifer o drigolion lleol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod trigolion yn cydnabod eu bod yn byw mewn ardal drefol, a bod lefel o sŵn trefol yn cael ei oddef. Fodd bynnag, mae'r cais yn gynnydd sylweddol mewn gweithgarwch ac mae gan drigolion hawl i fwynhad didramgwydd yn y cartrefi. Dywedodd Mr Chapman ei fod wedi gwneud cwynion ynglŷn â sŵn o'r safle'n anffurfiol ond ni chawson nhw eu cofnodi'n ffurfiol. Nododd cais Rhyddid Gwybodaeth fod 8 cwyn ffurfiol wedi bod ers 2018. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi newid sut mae'n cofnodi cwynion am sŵn. Ar ben hynny, nid yw'n glir a yw cwynion yn cael eu cofnodi fel materion trwyddedu neu sŵn.

Mynegwyd pryderon hefyd am blant yn byw yng nghyffiniau'r safle a'r effaith yr oedd gweithredu'r safle yn ei chael ar eu cwsg.

Clywodd yr Is-bwyllgor hefyd sylwadau gan Steve Beyers a Sue McGuire. Mynegodd y ddau bryderon am y cynnydd mewn gweithgarwch trwyddedadwy a'r effaith y byddai hynny'n ei chael ar eiddo cyfagos.

<u>I Grynhoi</u>

Gwahoddodd y Cadeirydd bob parti i wneud sylwadau cloi.

Dywedodd y Cwnstabl Jones na allai Heddlu De Cymru gefnogi'r cais gan ei bod yn debygol y byddai effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Dywedodd Rhys Morgan fod yr atodlen weithredu a gyflwynwyd gyda'r cais yn ddiffygiol ac felly na ellid cefnogi'r cais gan y byddai'r amcanion trwyddedu yn cael eu tanseilio.

Ailadroddodd y trigolion lleol eu pryderon gan ofyn i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Roedd Mr Munro o'r farn bod cysylltiad annheg rhwng y safle a sŵn o safleoedd eraill yn ardal Pontcanna a Heol y Gadeirlan. Fodd bynnag, ar unrhyw noson mae'r safleoedd ar gau erbyn 2300. Dywedwyd bod llawer o bobl leol wedi cefnogi'r cais ac wedi anghytuno â thôn llythyr a oedd wedi ei ddosbarthu ynghylch y cais i amrywio'r drwydded.

Roedd y lleoliad yn cynnal nifer o ddigwyddiadau diwylliannol. Roedd arwyddion wedi eu codi i ofyn i gwsmeriaid fod yn ystyriol o drigolion cyfagos.

Nid oedd unrhyw bryderon diogelwch tân ac ni adroddwyd unrhyw achosion o droseddau a oedd yn gysylltiedig â'r safle.

PENDERFYNWYD - Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu’r Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn GWRTHOD y cais.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y gwrthwynebiad gan Heddlu De Cymru yn ofalus a theimlai y byddai'r amrywiad arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

4 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm